| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 16 - Monitro a Gweithredu a Materion Amrywiol** | |

**Pwynt Gweithredu S16/PG41**

**Ystyried cynnwys nodyn esboniadol i ddisgrifio perthynas y Cynllun gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.**

## 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae Adran 2 yn cynnwys darpariaethau ynghylch diffiniad o ddatblygu cynaliadwy. Wrth ymgymryd â'r ddyletswydd yma, mae'r camau sy'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd yn cynnwys:

- Gosod a chyhoeddi amcanion ('amcanion llesiant') sydd wedi eu dylunio i uchafu ei gyfraniad i gyflawni bob un o'r goliau llesiant; a,
- Cymryd pob cam rhesymol (wrth ymgymryd â'i swyddogaethau) i gwrdd â'r amcanion hynny.

1.2 Mae'r Ddeddf yn gosod saith amcan llesiant yn eu lle i helpu sicrhau fod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

1.3 Mae nodyn a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Archwiliad (gweler dogfen DA.037 yn Llyfrgell yr Archwiliad) yn tynnu sylw at nifer o ffactorau, fel a ganlyn:

- Daeth Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016 ag amrywiol adrannau o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2016.
- Er hynny, mae gweithrediad Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015, yn adran 6 yn golygu na fyddai'r Cynlluniau a gyflwynwyd i'w Harchwilio ar y pryd pan ddaeth adran 2 o'r Ddeddf i rym yn amodol i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Felly ni ellir cymhwyso cyflawniad yr amcanion llesiant hyn i'r cynlluniau yma.
- Mae nodyn Llywodraeth Cymru yn nodi fod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn un o dri chynllun ble nad oes angen iddynt gwrdd â'r amcanion hyn.

1.4 Serch hynny, mae'r Cynghorau yn ystyried ei bod yn briodol dangos sut mae cyfeiriad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn gydnaws gyda'r amcanion llesiant. Drwy gyfeirio at yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae'r tabl yn Atodiad 1 i'r nodyn yma yn ceisio dangos sut mae'r Cynllun yn gydnaws gyda'r saith amcan llesiant.

## 2 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

2.1 Diben Cynllun newydd Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yw arwain datblygiad cynaliadwy'r ardal forol drwy reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy. Mae'n ymdrin â dyfroedd y glannau (hyd at 12 milltir forol) a dyfroedd môr mawr (y tu hwnt i 12 milltir forol) Cymru mewn un ddogfen. O ran y tir, mae'r Cynllun hwn yn cwmpasu hyd at benllanw.

2.2 Cyhoeddwyd drafft cyn ymgynghori o'r Cynllun gan Lywodraeth Cymru ar gyfer derbyn sylwadau yn Nhachwedd 2015 ymlaen at ddiwedd Ionawr 2016. Deallir byddai’r dull polisi yn parhau i gael ei ddatblygu ar ôl ymgysylltu ar y drafft cyn ymgynghori, er mwyn rhyddhau cynllun drafft i ymgynghori'n ffurfiol ar ddyddiad hwyrach.

2.3 Mae drafft cyn ymgynghori CMCC yn nodi fod yr Amcanion Morol Lefel Uchel (HLMOs) a nodwyd yn y Datganiad Polisi Morol (2011) yn uniongyrchol yn llywio'r CMCC newydd. Mae'r amcanion yn gydnaws gydag amcanion ac egwyddorion llesiant Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ogystal â'r cyfeiriad a ddarparwyd yng Nghyfarwyddeb yr UE ar Gynllunio Morol Gofodol 89/2014. Gan fod y CMCC yn ymestyn i hyd at lefel penllanw cymedrig gorlanwau ac mae terfynau cynllunio defnydd tir yn gyffredinol yn ymestyn i lanwau distyll cymedrig gorlanwau bydd gorgyffwrdd rhwng y CMCC terfynol a'r cynlluniau daearol, yn helpu i hwyluso integreiddio rhwng y tir a’r môr. Mae'r CMCC drafft cyn ymgynghori yn darparu enghreifftiau o gynlluniau statudol ac anstatudol a baratowyd gan gyrff cyhoeddus sy'n berthnasol i'r CMCC, sef:

- Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Basn Afon (RBMPs) dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- Cynlluniau Rheoli AHNE;
- Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol;
- Cynlluniau Rheoli i Safleoedd Morol Ewropeaidd;
- Cynlluniau i sicrhau llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Cynlluniau Rheolaeth y Draethlin
- Cynlluniau Rheoli Aberoedd (e.e. Cynllun Rheoli Aber Hafren);
- Cynlluniau Rheoli Cynefinoedd Arfordirol;
- Cynlluniau Arfordir Treftadaeth;
- Cynlluniau rheoli i sector penodol (e.e. cynlluniau awdurdod porthladd);
- Strategaethau Adfywio Arfordirol.

2.4 Mae drafft cyn ymgynghori CMCC yn cyfeirio at fatrics arfarnu sydd i'w baratoi i arfarnu cynlluniau fel cynlluniau datblygu (wedi eu mabwysiadu ac sy'n datblygu) sy'n delio gydag awdurdodau arfordirol i annog integreiddio ar yr arfordir. Bydd tabl

yn dangos y cynlluniau hynny sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â pholisïau'r sector yn y CMCC gan gyfeirio awdurdodau cynllunio lleol at bolisïau yn y cynllun CMCC sy'n berthnasol i'w blaenoriaethau cynllunio.

2.5 Felly, mae'r CMCC yn dal i fod ar ffurf drafft ac mae angen iddo fod yn amodol i ymgynghori ffurfiol cyn iddo gael ei gwblhau. Mae'r CMCC sy'n datblygu yn adnabod amrywiol gynlluniau statudol ac anstatudol a baratowyd gan y Cynghorau sy'n berthnasol i'r CMCC. Mae'r Cynghorau yn hyderus eu bod wedi rhoi sylw i gynlluniau statudol ac anstatudol sy'n ymwneud ag ardal y Cynllun e.e. Cynlluniau Rheoli, Cynllun Rheolaeth Traethlin Gorllewin Cymru, Cynlluniau Arfordir Treftadaeth wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r polisïau perthnasol yn cynnwys Polisi ARNA 1 Ardaloedd Rheoli Newid yr Arfordir, Polisi AMG 3 Amddiffyn yr Arfordir, Polisi Newydd Cynlluniau Rheoli AHNE.

2.6 Mae paratoadau'r Cynllun hefyd wedi bod yn destun i Arfarniad Cynaladwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y cyd sy'n cynnwys yr Amcanion Fframwaith Cynaladwyedd a ganlyn: Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth; Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd

2.7 Ar y sail hon, ystyrir bod y Cynllun yn gydnaws gyda'r CMCC sy'n datblygu.

**Atodiad 1: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

## Cynllun ac Amcanion Llesiant

| Amcan Llesiant | Sut mae'r Cynllun yn cyfrannu at yr amcan yma? |
| --- | --- |
| **Cymru ffyniannus:**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau amgylchedd y byd gan felly ddefnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); sy'n datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth gan ganiatáu i bobl gymryd mantais o'r cyfoeth a grëwyd drwy sicrhau gwaith gweddus. | Fe wnaeth y Gwerthusiad Cynaladwyedd adnabod materion cynaliadwyedd sy'n effeithio ar ardal y Cynllun drwy adolygu cynlluniau a thrwy gasglu data gwaelodlin. Mae'r rhain yn cynnwys bioamrywiaeth, ffactorau hinsawdd, diogelu'r dirwedd, trafnidiaeth gynaliadwy, mwynau, gwastraff a dŵr.<br><br>Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau sy'n hybu technoleg carbon isel, creu ynni adnewyddadwy, diogelu adnoddau sydd â phen draw iddynt a pholisïau sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ble mae ffyniant poblogaeth ardal y Cynllun yn dibynnu arno.<br><br>Mae'r Cynllun yn rhoi cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus drwy ddiogelu tir cyflogaeth presennol a dyrannu tir cyflogaeth newydd i anghenion cyflogaeth yn y dyfodol a darparu fframwaith polisi cynllunio lleol i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig/cysylltiol gyda'r Wylfa Newydd. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau ar gyfer ail-ddatblygu tir addas a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau i amryfal fathau o ddatblygiad sy'n ffordd effeithiol iawn o sicrhau adfywio trefol, gan gynnwys y gymysgfa briodol o dai, cyflogaeth, adwerthu, addysg, hamdden a defnyddiau mwynderau.<br><br>Er bod diddordebau addysgol y tu hwnt i faes y Cynllun, mae yn cynnwys polisïau sy'n cefnogi cynigion ar gyfer cyfleusterau addysg bellach ac uwch gan annog isadeiledd a chyfraniadau'r datblygwr i addysg ble fo hynny'n angenrheidiol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cynnal hierarchaeth cymunedau cynaliadwy a'r gwasanaethau maent yn eu darparu.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u> |

| | |
|---|---|
| | • Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu;<br>• Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth leol.<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>▪ PS2: Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr<br>▪ ISA1: Darpariaeth Isadeiledd<br>▪ ISA3: Datblygu addysg bellach ac uwch<br>▪ PS3: Technoleg Gwybodaeth a Chymunedau<br>▪ PS4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd<br>▪ PS5: Datblygiad Cynaliadwy<br>▪ PS6: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd<br>▪ PCYFF4: Rheoli Carbon<br>▪ PS7: Technoleg ynni adnewyddadwy<br>▪ ADN1: Ynni gwynt ar y tir<br>▪ ADN2: Technoleg Ynni Adnewyddadwy eraill<br>▪ PS9: Wylfa Newydd<br>▪ PS10: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus<br>▪ CYF1: Diogelu a dyrannu tir ac unedau i ddefnydd cyflogaeth<br>▪ CYF3: Mentrau diwydiannol neu fusnesau mawr un defnyddiwr ar safleoedd sydd heb eu diogelu neu eu dynodi i ddibenion cyflogaeth.<br>▪ CYF5: Ail-ddefnyddio a throsi adeiladau gwledig ar gyfer defnydd busnes/diwydiannol<br>▪ CYF6: Safleoedd adfywio<br>▪ PS16: Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol<br>▪ AMG4: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol<br>▪ AMG5: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol<br>▪ PS19: Mwynau<br>▪ MWYN1: Diogelu adnoddau mwynau |

| | |
|---|---|
| **Cymru gydnerth:**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol gyda'r gallu i addasu os oes unrhyw newid (er enghraifft, newid hinsawdd). | Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau penodol sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae yn adnabod ac yn gwarchod dynodiadau statudol ac anstatudol.<br><br>Mae yn hyrwyddo defnydd effeithiol o'r adnoddau, technoleg adnewyddadwy, carbon isel neu di-garbon ac yn cynnwys polisïau sy'n ceisio lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.<br><br>Oherwydd bod rhannau mawr o ardal y Cynllun o natur arfordirol rhoddodd sylw i bolisïau Cynllun Rheolaeth y Draethlin.<br><br>Yn ogystal, mae'r Cynllun yn atal datblygiad amhriodol mewn parthau llifogydd.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u><br><br>• Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth;<br>• Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu;<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>▪ PS6: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd<br>▪ PCYFF4: Rheoli Carbon<br>▪ PS7: Technoleg ynni adnewyddadwy<br>▪ ADN1: Ynni gwynt ar y tir<br>▪ ADN2: Technoleg Ynni Adnewyddadwy eraill<br>▪ ARNA1: Ardal Rheoli Newid Arfordirol<br>▪ PS16: Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol<br>▪ AMG4: Chynlluniau Cadwraeth Bioamrywiaeth<br>▪ AMG5: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol |
| **Cymru iachach:** | Cynhaliwyd Asesiad Effaith Iechyd o'r Cynllun i sicrhau bod y Cynllun yn |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas ble fo lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu a ble fo dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol wedi eu deall. | llesteirio unrhyw effeithiau negyddol posib ac i hybu yn gadarnhaol a gwella iechyd a lles y boblogaeth breswyl.<br><br>Mae'r Cynllun yn diogelu rhag colli mannau agored gyda gwerth hamdden gan ddarparu cyfle i greu mwy o fannau hamdden gyda datblygiadau tai newydd. Mae polisïau eraill yn y Cynllun yn cynnwys meini prawf sef, ble fo'n briodol bydd angen i ddatblygiadau newydd greu mannau cyhoeddus diogel, deniadol ble fo nodweddion pwysig sy'n cynnwys ardaloedd mwynder, mannau gwyrdd ac isadeiledd gwyrdd yn cael eu cadw a'u gwella.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn hwyluso datblygiad cyfleusterau gofal iechyd sy'n hygyrch i bawb yn Ardal y Cynllun. Mae hefyd yn cyfarwyddo datblygiadau preswyl newydd i fod yn unol â rôl yr anheddiad yn yr Hierarchaeth Anheddau, gan felly symud tuag at sicrhau fod tai newydd wedi eu lleol mewn mannau sy'n hygyrch i gyfleusterau cymdeithasol a gwasanaethau allweddol.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u><br><br>• Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>▪ ISA2: Cyfleusterau cymunedol<br>▪ ISA4: Diogelu mannau agored presennol<br>▪ ISA5: Darpariaeth mannau agored mewn datblygiadau tai newydd<br>▪ PS4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd<br>▪ TRA4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant<br>▪ PCYFF2: Dylunio a siapio lle |
| **Cymru fwy cyfartal:**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys cefndir economaidd | Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r Cynllun i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol ac i adnabod y cyfraniad positif y gall y Cynllun ei wneud i'r rhaglen cydraddoldeb. |

| | |
|---|---|
| cymdeithasol ac amgylchiadau). | *Hil:*<br>Ceir sawl polisi yn y Cynllun sy'n hwyluso cynhwysiant cymdeithasol fydd o gymorth i integreiddio grwpiau i'r cymunedau lleol. Mae gwella hygyrchedd hefyd yn thema bwysig yn y Cynllun sy'n helpu i integreiddio grwpiau lleiafrif, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr i'r gymdeithas.<br><br>*Anabledd:*<br>Mae'r Cynllun yn hwyluso datblygiad tai o ansawdd da sy’n briodol i anghenion pobl anabl. Mae polisi dylunio yn sicrhau fod pob datblygiad yn cyflawni'r dyluniad cynhwysol drwy sicrhau amgylcheddau lle nad oes rhwystrau; sy'n galluogi mynediad i bawb ac sy’n cynnig darpariaeth lawn i bobl ag anableddau;<br><br>Yn ogystal, mae’r Cynllun yn cefnogi’r cynigion sy'n ymwneud â gweithio o adref, a fedrai fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn ardaloedd gwledig sy’n llai hygyrch at weithleoedd, yn enwedig i bobl sydd â phroblemau symudedd.<br><br>*Rhyw:*<br>Mae diogelwch cymunedol yn fater a allai effeithio grwpiau penodol megis merched a dynion ifanc, sy'n gallu bod yn fwy agored i droseddu treisgar. Ni ragwelir bod y polisïau manwl yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar y grŵpiau hyn. Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dylunio, tir cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofni trosedd a allai effeithio ar grwpiau penodol, megis merched. Yn ogystal, mae’r Cynllun yn hyrwyddo mynediad hawdd at gyfleusterau iechyd a'r cyfleusterau hynny i ddynion a merched fel ei gilydd.<br><br>*Cyfeiriadedd rhywiol:*<br>Er bod gan y Cynllun gwmpas cyfyngedig i ddylanwadu ar y grwpiau hyn gall diogelwch cymunedol fod yn fater a allai effeithio’r grŵp hwn. Mae'r polisïau |

| | |
|---|---|
| | sydd yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dylunio, tir cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofni trosedd.<br><br>*Ail aseiniad rhyw:*<br>Er bod gan y Cynllun gwmpas cyfyngedig i ddylanwadu ar y grwpiau hyn gall diogelwch cymunedol fod yn fater a allai effeithio'r grŵp hwn. Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dylunio, tir cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofni trosedd.<br><br>*Crefydd neu Gred:*<br>Mae argaeledd a hygyrchedd rhai cyfleusterau cymunedol yn ystyriaeth bwysig i grwpiau crefyddol. Mae'r Cynllun yn hwyluso datblygiad cyfleusterau priodol (yn cynnwys tai, cyfleusterau hamdden a chyfleusterau cymunedol), sy'n addas i bob crefydd. Yn ogystal, mae'r Cynllun yn hwyluso datblygu cymysgfa o wahanol fathau o dai sy'n addas i ystod eang o grwpiau.<br><br>*Oedran:*<br>Mae'r Cynllun yn hyrwyddo cymysgfa briodol o dai mewn datblygiadau newydd (gan gynnwys tai marchnad leol a thai fforddiadwy) sydd yn eu tro yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy drwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan.<br><br>Mae polisïau penodol i gartrefi gofal preswyl, tai gofal ychwanegol neu lety gofal arbenigol i bobl hŷn, sy'n ymdrin yn uniongyrchol gydag anghenion tai pobl hŷn. Bydd polisïau seilwaith yn hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau priodol i bobl o wahanol grwpiau oedran a dylai hyn wella lles a bywiogrwydd cymunedol.<br><br>Nod y Cynllun yw diogelu safleoedd cyflogaeth a hwyluso twf economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig a dylai hyn helpu i gynnal y boblogaeth oed gweithio yn ogystal â chadw pobl ifanc yn eu cymunedau, gan felly wella lles y |

| | |
|---|---|
| | gymuned.<br><br>Bydd polisïau trafnidiaeth cynaliadwy o fudd i grwpiau oedran hŷn ac ifanc drwy hwyluso mynediad at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u><br><br>• Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol<br>• Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol<br>• Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol<br>• Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth dda i gefnogi'r gymuned a'r economi<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>▪ ISA1: Darpariaeth Isadeiledd<br>▪ ISA2: Cyfleusterau cymunedol<br>▪ PS4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd<br>▪ TRA4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant<br>▪ PCYFF2: Dylunio a siapio lle<br>▪ CYF5: Ail-ddefnyddio a throsi adeiladau gwledig ar gyfer defnydd busnes/diwydiannol<br>▪ TAI1: Cymysgedd Briodol o Dai<br>▪ TAI2: Isrannu eiddo presennol<br>▪ TAI4: Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr Henoed<br>▪ TAI11: Diogelu safleoedd presennol i Sipsiwn a Theithwyr<br>▪ TAI12: Dyraniad safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr<br>▪ TAI13: Safleoedd ar gyfer lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr |

| | |
|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynus:**<br>Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da. | Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio hyrwyddo cymunedau diogel, iach, unigryw a llewyrchus. Nod Strategaeth Ofodol y Cynllun yw gwasgaru datblygiadau'n gymesurol o amgylch ardal y Cynllun gan ganolbwyntio ar y lleoliadau hynny sy'n darparu'r cyfleoedd gorau i gyflawni datblygiad cynaliadwy.<br><br>Mae'r Cynllun yn hyrwyddo cymysgfa briodol o dai mewn datblygiadau newydd sydd yn eu tro yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy drwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan.<br><br>Mae polisïau'r Cynllun yn nodi'r meini prawf sy'n flaenoriaeth y bydd angen i ddatblygiad newydd ei gwrdd i gyflawni datblygiad cynaliadwy wedi ei leoli'n briodol.<br><br>Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau cludiant cynaliadwy a'u nod yw llesteirio effeithiau negyddol cynlluniau cludiant newydd gan hefyd sicrhau fod cysylltiad da gan gymunedau i gyfleusterau a gwasanaethau.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u><br><br>• Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol<br>• Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol<br>• Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol<br>• Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth dda i gefnogi'r gymuned a'r economi<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>▪ PS4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd |

| | |
|---|---|
| | ▪ TRA1: Datblygiadau rhwydwaith cludiant<br>▪ TRA4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant<br>▪ PS5: Datblygiad Cynaliadwy<br>▪ PCYFF1: Meini Prawf Datblygu<br>▪ PCYFF2: Dylunio a siapio lle<br>▪ PS10: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus<br>▪ PS13: Darpariaeth Tai |
| **Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus:**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, etifeddiaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | Cynhaliwyd Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg o'r Cynllun ac mae hyn wedi llywio'r Arfarniad Cynaliadwyedd er mwyn cefnogi cynlluniau, polisïau a mentrau eraill i hyrwyddo a mwyhau'r Gymraeg a'i diwylliant yn gadarnhaol i'r boblogaeth breswyl a ble fo angen llesteirio unrhyw effeithiau negyddol posib.<br><br>Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau penodol sy'n cyfrannu at warchod, hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun.<br><br>Mae polisïau tai yn hwyluso swm digonol o dai cymysg (math a deiliadaeth) i ddiwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai ar gyfer pobl hŷn. Bydd y polisïau yn hwyluso tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, tai'r farchnad leol, tai'r farchnad agored a llety wedi ei ddylunio yn benodol i'r genhedlaeth hŷn. Bydd hyn o gymorth i greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol ac ynghyd â pholisïau eraill yn y Cynllun e.e. cyflogaeth a pholisïau tir, dylai strategaeth a chynlluniau bob Cyngor fod o gymorth i leihau allfudo grwpiau oedran iau, denu cyn drigolion yn ôl i'r ardal yn ogystal â phobl newydd o oed gweithio.<br><br>Mae polisïau sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn hwyluso darpariaeth cyfleoedd economaidd drwy ardal y Cynllun. Dylai hyn hefyd gynorthwyo i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf gwledig, gan felly gynnal neu wella'r cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau sy'n ceisio gwarchod diwylliant a |

| | |
|---|---|
| | threftadaeth Cymru drwy gydnabod, gwarchod a gwella'r asedau treftadaeth hanesyddol adeiledig a safleoedd archaeoleg.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u><br><br>• Cadw, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg<br>• Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol<br>• Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun<br>• Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol<br>• Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>• PS1: Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant<br>• PS10: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus<br>• PS13: Darpariaeth Tai<br>• TAI5: Tai Marchnad Leol<br>• PS14: Tai fforddiadwy<br>• TAI10: Safleoedd eithrio<br>• PS15: Strategaeth Aneddiadau<br>• TAI1: Cymysgedd Briodol o Dai<br>• PS17: Cadw a gwella asedau treftadaeth<br>• AT1: Ardaloedd cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi.<br>• AT2: Galluogi Datblygiad<br>• AT3: Asedau treftadaeth heb eu dynodi sy'n bwysig yn lleol neu yn rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| | • AT4: Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi |
| **Cymru sy'n gyfrifol am y ddaear:**<br>Cenedl fydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fyddai gwneud hynny yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. | Er mwyn gostwng effaith negyddol posib yr ardal ar lesiant byd-eang ac i fwyhau unrhyw effeithiau cadarnhaol, mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn mwyhau'r cyfraniad a wna tuag at gyfarfod y targedau cenedlaethol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gostwng carbon.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio gwarchod nodweddion amgylcheddol ehangach fel bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.<br><br><u>Polisïau Perthnasol:</u><br>▪ PS5: Datblygiad Cynaliadwy<br>▪ PS6: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd<br>▪ PCYFF4: Rheoli Carbon<br>▪ PS7: Technoleg ynni adnewyddadwy<br>▪ PS9: Wylfa Newydd<br>▪ ADN1: Ynni gwynt ar y tir<br>▪ ADN2: Technoleg Ynni Adnewyddadwy eraill<br>▪ PS16: Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol |